GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

IMPORTANT NOTICE - Your childs consent form is to be returned to school on the day of the planned session.

September 2021

Help keep your child well this winter – make sure they have their flu vaccine.

Dear parent or guardian,

The school nursing/immunisation team will visit school on 13/12/21 to offer pupils a **nasal spray flu vaccine**. The NHS recommends all eligible children should have a flu vaccination every year, and this has been extended to children in secondary school years 7 to 11 this year across Wales.

Please read the information and complete the consent form.

It's very important to protect your child from flu to make sure they stay as healthy as possible, as both COVID-19 and flu are likely to circulate this winter. The best flu vaccine for most children is a nasal spray. This is the vaccine that will be given on the day.

It will be provided in a COVID-19 safe environment.

We have included an information sheet, and a consent form with this letter. To help make sure the vaccine is suitable for your child, and they don't miss out, please take time to read the information and then **return the filled-in form to school on the day of the planned vaccination date.**

If you want more information about flu vaccination for children, please contact the school nurse or immunisation team, or phone NHS 111 Wales on 111 (or 0845 46 47 if not available in your area), or visit: www.beatflu.org.

Please keep this letter as it contains the date of the vaccination session and contact details.

Yours faithfully

Immunisation Team

03000 858666 (2)

After you have returned the consent form, if there are any changes to your child's health before the vaccination session, or their asthma medication is increased or they are prescribed oral steroids or become wheezy, please contact the school nurse or immunisation team on 03000 858666 option 2

Note: There are a very small number of children who should not have the nasal flu vaccine please see the information sheet for more detail, or look at www.beatflu.org .

PWYSIG – I dychwelyd y ffurflen cydseinio eich plentyn yn ol i'r ysgol ar diwrnod y sesiwn os gwelwch yn dda.

Medi 2021

Helpwch i gadw eich plentyn yn iach y gaeaf hwn – gwnewch yn siŵr ei fod yn cael ei frechlyn ffliw.

Annwyl riant neu warcheidwad,

Bydd tîm nyrsio/imiwneiddio'r ysgol yn ymweld â'r ysgol ar 13/12/21 i gynnig **brechlyn ffliw chwistrell trwyn** i ddisgyblion. Mae'r GIG yn argymell y dylai pob plentyn cymwys gael brechiad ffliw bob blwyddyn, ac mae hyn wedi'i ymestyn i blant ym mlynyddoedd 7 i 11 mewn ysgolion uwchradd eleni ledled Cymru.

Darllenwch y wybodaeth a llenwi'r ffurflen ganiatâd.

Mae'n bwysig iawn amddiffyn eich plentyn rhag y ffliw er mwyn sicrhau ei fod yn aros mor iach â phosibl, gan fod COVID-19 a'r ffliw yn debygol o fynd ar led y gaeaf hwn. Y brechlyn ffliw gorau i'r rhan fwyaf o blant yw chwistrell trwyn. Dyma'r brechlyn a roddir ar y diwrnod.

Bydd yn cael ei ddarparu mewn amgylchedd diogel o ran COVID-19.

Rydym wedi cynnwys taflen wybodaeth, a ffurflen ganiatâd gyda'r llythyr hwn.Er mwyn helpu i sicrhau bod y brechlyn yn addas ar gyfer eich plentyn, ac nad yw'n colli allan, cymerwch amser i ddarllen y wybodaeth ac yna **dychwelyd y ffurflen wedi'i llenwi i'r ysgol ar diwrnod y brechu arfaethedig.**

Os ydych am gael rhagor o wybodaeth am frechu rhag y ffliw i blant, cysylltwch â nyrs yr ysgol neu'r tîm imiwneiddio, neu ffoniwch GIG 111 Cymru ar 111 (neu 0845 46 47 os nad yw ar gael yn eich ardal), neu ewch i: www.curwchffliw.org.

Cadwch y llythyr hwn gan ei fod yn cynnwys dyddiad y sesiwn frechu a manylion cyswllt.

Yn gywir

Tim Imiwneiddio

03000 858666 (2)

Ar ôl i chi ddychwelyd y ffurflen ganiatâd, os oes unrhyw newidiadau i iechyd eich plentyn cyn y sesiwn frechu, neu os yw ei feddyginiaeth asthma yn cynyddu neu os rhagnodir steroidau drwy'r geg iddo/iddi neu os bydd yn wichlyd, cysylltwch â nyrs yr ysgol neu'r tîm imiwneiddio ar 03000 858666 option 2

Noder: Mae nifer bach iawn o blant na ddylent gael y brechlyn ffliw drwy'r trwyn. Gweler y daflen wybodaeth i gael rhagor o fanylion, neu edrychwch ar www.curwchffliw.org.